Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Newyddlen i berchenogion

Coetiroedd gwell i Gymru

Newyddion gan Grantiau a Rheoliadau Comisiwn Coedwigaeth Cymru • Rhifyn 6 • Hydref 2010

Cynnwys

Dod â Choetiroedd Gwell i Gymru i ben

Beth sydd nesaf?

Datblygu rheoli coetir Glastir

Grant yn datgelu trysorau cudd

Diweddariad ar Phytophthora ramorum

Plannu ac Ailstocio

Lansio'r cod carbon

Llawlyfr coetiroedd brodorol

Cod Carbon Coetiroedd

Rhifyn nesaf Ionawr 2011

Mae'r rhifynnau presennol ac ôl-rifynnau ar gael ar wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru:
www.forestry.gov.uk/wales

Dod â Choetiroedd Gwell i Gymru i ben

Byddwch yn ymwybodol bod Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi cynnal adolygiad o sut y dylid rheoli grantiau coetir er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni strategaeth Coetiroedd i Gymru Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r Gweinidog dros Faterion Gwledig wedi cyhoeddi y bydd Coetiroedd Gwell i Gymru, sef y cynllun grantiau coetiroedd a gyflwynir gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru'n dod i ben ar gyfer ymgeiswyr newydd ar 17 Tachwedd 2010. Caiff grantiau coetir eu hintegreiddio yn Glastir; sef y Cynllun Rheoli Tir Cynaliadwy newydd i Gymru a reolir gan yr Adran Materion Gwledig. Os hoffech ddarllen mwy am y pwnc hwn ewch i'n gwefan sef:
http://www.forestry.gov.uk/forestry/infd-5z8jcr

Beth nesaf?

Caiff grantiau creu coetiroedd Glastir eu lansio yr hydref hwn a bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru'n parhau i'w darparu tan 1 Ionawr 2013, drwy Glastir, ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Byddwn yn cyhoeddi manylion am y cynllun newydd ar ein gwefan:
http://www.forestry.gov.uk/forestry/infd-5z8jcr

Datblygu prosesau rheoli Glastir

Mae staff Grantiau a Rheoliadau, Kevin Taylor a Patrick Green yn gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu dyluniad y cynllun a'r dull o reoli coetiroedd drwy Glastir. Bydd y dewisiadau rheoli coetiroedd yn ceisio cyflwyno'r canlyniadau yn Coetiroedd i Gymru, sef strategaeth goetir LICC y gellir ei hariannu drwy Axis 2 y Cynllun Datblygu Gwledig. Bydd cryn bwyslais ar reoli Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol, trosi i Systemau Coedwriaeth Effaith Isel a dod â mwy o lawer o goetiroedd fferm o dan reolaeth gadarnhaol. Mae dewisiadau ar gyfer ailgyflenwi, defnyddio cymysgeddau o rywogaethau amrywiol yn cael eu hystyried hefyd.
http://www.forestry.gov.uk/forestry/infd-5z8jcr

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Grant yn helpu i ddatgelu trysorau cudd gardd



"Gan mai 2010 yw Blwyddyn Ryngwladol Bioamrywiaeth, cael gwared ar rywogaethau sy'n ecolegol amhriodol ac annog arferion rheoli er mwyn annog amrywiaethau o rywogaethau yw'r cyfraniadau gorau y gall unrhyw un ei wneud."

Mae Gardd Fotaneg Treborth, ger Bangor yn dathlu ei 50fed pen-blwydd yn 2010. Nawr, diolch i'r flwyddyn arbennig hon, mae rhai o drysorau cudd yr ardd wedi'u datgelu diolch i grant gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru.

Mae Prifysgol Bangor yn berchen ar yr ardd, sydd wedi'i lleoli ar safle dymunol sy'n edrych dros y Fenai, a phrynodd y Brifysgol y 40 erw o goetir a phorfa ym 1960. Oherwydd amrywiaeth o fathau o bridd a chynefinoedd sy'n cefnogi planhigion brodorol ac anifeiliaid, mae'n cynnig adnoddau gwerthfawr ac mae myfyrwyr o'r brifysgol a grwpiau ysgolion yn gwneud cryn ddefnydd ohoni.

Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru, ynghyd â Chyngor Cefn Gwlad Cymru, wedi helpu i ariannu'r gost o adfer coetiroedd hynafol yr ardd. Mae'r gwaith adfer wedi cynnwys cael gwared ar rywogaethau o brysgwydd a gyflwynwyd megis rhododendron a llawrgeirios er mwyn caniatáu i blanhigion brodorol, sy'n rhan bwysig o goetir hynafol fel yr un yn Nhreborth, ail-gytrefu'r ardal.

Ar ôl cael gwared ar y prysgwydd hyn nad ydynt yn frodorol, gellir gweld llwybrau troed cywrain a rhodfa leim unwaith eto, diolch i waith clirio o amgylch y rhaeadr yn ardal ddwyreiniol y coetir, mae golygfeydd ysblennydd ar draws y Fenai i'w gweld bellach.

Cafodd yr ardal ei thirlunio am y tro cyntaf yn yr 1850au gan Joseph Paxton, dylunydd Crystal Palace ar gyfer yr Arddangosfa Fawr ym 1851. Fodd bynnag gadawyd y safle ar ddechrau'r 1850au gyda'r tir hamdden a'r gwesty ond yn cael eu gorffen yn rhannol a'r tir yn cael ei droi'n borfa a choetir unwaith eto.

Dros y blynyddoedd, mae gordyfiant mawr ar y tiroedd hamdden a'r coetiroedd drwy'r prysgrwydd arddurnol nad ydynt yn frodorol a blannwyd gan y Fictoriaid ac roedd gweddillion dyluniad Paxton wedi mynd ar gyfeilion tra roedd y golygfeydd ysblennydd dros y Fenai wedi diflannu.

Dywedodd Curad Gardd Fotaneg Treborth, "Hoffwn ddiolch i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru am helpu i wella'r coetiroedd yn Nhreborth mewn ffordd mor arwyddocaol.

"Gan mai 2010 yw Blwyddyn Ryngwladol Bioamrywiaeth, cael gwared ar rywogaethau sy'n ecolegol amhriodol ac annog arferion rheoli er mwyn annog amrywiaethau o rywogaethau yw'r cyfraniadau gorau y gall unrhyw un ei wneud."

Mae'r coetiroedd hanesyddol ar agor bob dydd i'r cyhoedd, am ddim. Mae teithiau tywysedig ar gael ar ddiwrnodau agored a chaiff digwyddiadau arbennig eu trefnu gan Gyfeillion Gardd Fotaneg Treborth sydd â rôl allweddol i'w chwarae o ran rheoli'r safle 40 erw. Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.treborthbotanicgardens.org.**

Phytophthora ramorum: cymorth i berchenogion

Darganfuwyd achos o'r haint Phytophthora ramorum (P. ramorum) am y tro cyntaf yng Nghymru ar goed mewn coetiroedd â pherchenogion preifat.

Mae staff o Gomisiwn Coedwigaeth Cymru a Fera (Yr Asiantaeth Ymchwil Bwyd a'r Amgylchedd) wedi ymweld â choetiroedd y perchenogion yn Sir Ddinbych ac yng Nghastell-nedd Port Talbot ac mae hysbysiad wedi'i roi i gwympo'r coed llarwydd Siapaneaidd heintiedig. Mewn un achos, dim ond nifer fach o goed sydd wedi'u heintio, a bydd y perchennog yn defnyddio'r pren ar y safle. Yn y llall, roedd y perchennog eisoes wedi ymuno â chynllun Coetiroedd Gwell i Gymru ar gyfer cwympo.

Mae P. ramorum yn bathogen sy'n debyg i ffwng sy'n lladd llawer o'r coed llydanddail y mae'n effeithio arnynt a hyd yma yr holl larwydd mae wedi'u heintio.

Dywedodd Richard Siddons, Pennaeth Grantiau a Rheoliadau Comisiwn Coedwigaeth Cymru, sy'n rheoli'r coetiroedd cyhoeddus ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, "Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru'n benderfynol o leihau effeithiau'r clefyd coed difrifol hwn ar goetiroedd, a bydd cymorth perchenogion coetiroedd o ran edrych am arwyddion cynnar haint P. ramorum â rôl allweddol i'w chwarae i gyflawni hynny."

Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi datblygu rhaglen gymorth ar gyfer perchenogion coetir preifat sydd ag achosion o larwydd Siapaneaidd heintiedig ar eu tir.

Bydd arian yn talu i glirio llarwydd Siapaneaidd anaeddfed heintiedig ar dir cyhoeddus a phreifat. Hefyd fe gyflenwir y gost am yr oll wasanaethau cymorth a ddarperir gan asiant ar gyfer perchnogion coetir preifat.

Caiff yr arian hwn ei gyfyngu i gyllideb a chyfnod amhenodol a chaiff ei ddarparu fel mesur byr dymor a brys yn unig.

Mae rhagor o wybodaeth am P. ramorum ar gael ar wefan y Comisiwn Coedwigaeth **http://www.forestry.gov.uk/forestry/INFD-85TDX6**

Os ydych yn amau achos o haint P. ramorum yn eich coetir, cysylltwch â Swyddfa Grantiau a Rheoliadau Comisiwn Coedwigaeth Cymru ar **0300 068 0300** neu anfonwch neges e-bost at: **bww.ts@forestry.gsi.gov.uk.**

Plannu ac ailstocio gyda rhywogaethau llarwydd

Os oes gennych gynllun Coetiroedd i Gymru gymeradwy, byddem yn eich annog yn gryf i newid rhywogaeth lle y bwriedir plannu rhywogaethau llarwydd. Er mwyn rhoi'r cyfle i'r ddau reolwr coedwigaeth a phlanhigfeydd gael y cyfle i addasu i'r newid hwn. Bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru'n parhau i ariannu plannu llarwydd mewn contractau cymeradwy hyd at ac yn cynnwys tymor plannu 12/13. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ddeiliaid contractau gymryd y risg os bydd y cnwd yn methu oherwydd Phythophthora. Bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru'n adhawlio'r grant os ni fydd y coed sydd wedi methu yn cael eu hailosod. Ar ôl 12/13, ni fydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru'n ariannu plannu llarwydd.

Mae cyngor ar ddewis rhywogaethau ar gael o

http://www.forestry.gov.uk/website/forestry.nsf/byunique/infd-868egu

O hyn ymlaen, ni fydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru'n cymeradwyo nac yn ariannu plannu unrhyw larwydd yng nghynlluniau cymeradwy Coetiroedd Gwell i Gymru na chytundebau Creu Coetiroedd Glastir unwaith y caiff y cynllun ei eu lansio.

Rheoli Coetiroedd Llydanddail Brodorol – cyhoeddiad newydd

Mae gwyddonwyr Ymchwil Coedwig, Ralph Harmer, Gary Kerr a Richard Thompson newydd gyhoeddi'r llawlyfr newydd hwn sy'n cynnig cyngor a fydd yn helpu perchenogion i ddeall eu coetir a gwella'r ffordd y cânt eu rheoli. Mae hyn yn cynnwys ystod eang o bynciau, o nodi cymunedau coetir a rheoli cadwraeth natur i goedwriaeth o oed anwastad a rheoli llystyfiant. Mae'r llyfr hwn wedi'i gyhoeddi gan y Llyfrfa. I gael rhagor o wybodaeth neu i archebu copi, ewch i **www.tsoshop.co.uk**

Lansio cod carbon arfer da

Mae potensial coetiroedd i amsugno CO_2 o'r atmosffer gan ddarparu ystod eang o fuddion eraill i'r gymdeithas a bioamrywiaeth yn cael ei gydnabod fwyfwy. Mae llawer o unigolion a busnesau am gyfrannu at blannu coed er mwyn atafaelu allyriadau carbon. Ond cyn buddsoddi mewn prosiectau o'r fath, mae pobl am dystiolaeth bydd y cynlluniau plannu coed yn cyflwyno arbedion carbon.

Bydd y Cod Carbon Coetiroedd yn rhoi'r sicrwydd hwnnw. Bydd y cod yma'n annog ymagwedd gyson tuag at brosiectau carbon coetiroedd, ac yn cynnig eglurdeb a thryloywder i gwsmeriaid am yr arbedion carbon y gallai eu cyfraniadau eu cyflawni'n realistig. Er mwyn darllen mwy am hyn, ewch i:
www.forestry.gov.uk/carboncode

Trefn Gwyno

Mae'r holl gynllunwyr rheolaeth ac aseswyr arbenigol wedi arwyddo Cod Ymarfer. Os ydych chi'n anhapus gyda pherfformiad cynlluniwr neu arbenigwr dylech ddilyn y drefn gwyno sydd ar wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru, dan Gwynion ac Apeliadau CGG.

Bydd cwynion a wneir yn erbyn cynlluniwr neu arbenigwr yn cael eu bwydo i'r broses 'Cynnal Safonau' a chymerir camau gan ddefnyddio'r cyfarwyddyd a amlinelli'r yn y broses.

FCW71 10/10

Manylion cysylltu

Ymholiadau cyffredinol, ffoniwch: **0300 068 0300**
neu ewch i: **www.forestry.gov.uk/wales**
Ymholiadau technegol, anfonwch e-bost: **bww.ts@forestry.gsi.gov.uk**
Gwasanaeth Grantiau a Thrwyddedau Ar-lein (GLOS): **www.eforestry.gov.uk**
Awgrymiadau ar gyfer rhifynnau yn y dyfodol: **alison.evans@forestry.gsi.gov.uk**

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Argraffwyd y ddogfen hon ar Revive 50:50 Offset, papur wedi'i ailgylchu a gynhyrchir drwy ddefnyddio 50% o wastraff adferedig a 50% ffibr pren gwyryf. FSC SGS-COC-0912

Mae coetiroedd y Comisiwn Coedwigaeth wedi cael eu hardystio yn unol â rheolau Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd SGS-FM/COC-000358. © 1996 Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd AC